# Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

## Gwarchodfa Natur

# *Spinnies Aberogwen*

Rheolir Gwarchodfa Natur Y Spinnies, Aberogwen (4 hectar) gan wirfoddolwyr a staff Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Maent yn cydweithio i gynnal amgylchedd amrywiol sy'n gartref i lawer o blanhigion ac anifeiliaid, ac yn ddelfrydol ar gyfer gwylio adar.

Yng nghanol y coetir bychan, ceir cyfres o byllau a lagŵn yn darparu cysgod a bwyd i lawer o rywogaethau o adar gwyllt ac adar rhydio wrth iddynt fudo yn ystod yr hydref a'r gwanwyn. Mae'r warchodfa yn union gerllaw aber yr Afon Ogwen ac ardal eang o fflatiau llaid llanwol.



### Hanes

Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, prynwyd tir o amgylch aber yr Afon Ogwen gan Stad y Penrhyn ac fe'i amgaewyd gan wal uchel, sydd i'w gweld o hyd ar derfyn gorllewinol y warchodfa. Drwy ddargyfeirio a throi Afon Ogwen yn gamlas mewn rhan, cafwyd gwared ar dro mawr yn yr afon gerllaw'r arfordir. Mae'r tro hwn yn rhan o lagŵn y Spinnies yn Aberogwen yn awr.

### Y Lagŵn

Mae'r Spinnies, Aberogwen, yn un o warchodfeydd mwyaf poblogaidd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, gyda mwy na 185 o rywogaethau o adar i'w gweld yn y warchodfa neu o'i hamgylch. Gydag amrywiaeth o gynefinoedd, a'r llanw a thrai cyson, gall ddenu rhywogaethau cwbl ryfeddol. Ceir darpariaeth dda iawn ar gyfer gwylwyr adar yma, gan fod dwy guddfan i'w cael yn y warchodfa, gydag un yn edrych dros y lagŵn a'r aber.

Mae'r clystyrau tal a gosgeiddig o gawn cyffredin o amgylch y lagŵn yn darparu cysgod trwchus a safleoedd nythu delfrydol ar gyfer rhywogaethau'n magu, fel yr Iâr Ddŵr, yr Hwyaden Wyllt a Thelor yr Hesg. Mae'r Wyach Fach yn bwydo yn y lagŵn, gan ddeifio am bysgod bychain ac infertebrata, ac efallai y gwelwch y Gïach Gyffredin yn chwilio am bryfed genwair, cramenogion neu folysgiaid yn y llaid. Mae terfynau'r lagŵn yn lle rhagorol hefyd i wylio'r Crëyr Glas a'r Crëyr Bach.

Rhwng misoedd Medi a Mawrth, bydd y Glas y Dorlan llachar yn olygfa gyfarwydd o amgylch y lagŵn, yn chwilio am ysglyfaeth. Yn cadw cwmni iddo bydd y Gorhwyaden, y Chwiwell a'r Pibydd Coeswerdd.



Gelwir yr aber a'r fflatiau llaid gerllaw yn Draeth Lafan. Mae'r safle yma'n bwysig yn rhyngwladol am fod nifer fawr o hwyaid ac adar rhydio'n treulio rhan o'u blwyddyn yma.

Rheolir Traeth Lafan gan Gyngor Gwynedd fel Gwarchodfa Natur Leol.

### O Amgylch y Warchodfa

Tra'n cerdded ar hyd y llwybrau, cadwch lygad am y Caldrist Llydanddail, tegeirian prin iawn yn lleol, a Rhedyn Tafod yr Hydd a'r Marchredyn Gwryw, sy'n tyfu mewn mannau cysgodol. Ar ganghennau'r coed, mae'r Siff-Saff a Thelor yr Helyg ymhlith rhai o adar mudol y gwanwyn sydd i'w clywed yn glir. Ceir gwahanol fathau o ffwng lliwgar yma hefyd, gyda Chwpan bychan Robin Goch yn gyffredin yn ystod y gaeaf.

Yn ystod mis Chwefror, gwelir carped gwyn a gwyrdd o Eirlysiau a Bresych y Cŵn yn y warchodfa ac, yn yr haf, mae'r Danadl Poethion yn darparu bwyd i lindys glöynnod byw fel y Fantell Goch a Brith y Coed. Hefyd, gwelir y Glesyn Cyffredin, Boneddiges y Wig a'r Copor Bach ar y glaswelltir bychan agored gerllaw'r traeth.

Beth am gymryd seibiant am rai munudau ar un o feinciau'r llwybr troed, i fwynhau synau a golygfeydd y warchodfa?

